# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 5

COSBAU

## PENNOD 4

COSBAU SY'N YMWNEUD Â CHADW COFNODION A THREFNIADAU TALU'N ÔL

*Cosb am fethu â chadw cofnodion mewn cysylltiad â ffurflenni neu hawliadau treth a'u storio'n ddiogel*

### 143 Cosb am fethu â chadw cofnodion a'u storio'n ddiogel

(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio ag adran 38 **[**[F1], 38A**]** neu 69 yn agored i gosb heb fod yn fwy na £3,000.

(2) Ond nid oes unrhyw gosb i'w thalu os yw ACC yn fodlon bod unrhyw ffeithiau y mae'n rhesymol ofynnol ganddo iddynt gael eu profi, ac y byddai'r cofnodion wedi eu profi, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 143(1) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 53**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Aau. 143-145 cymhwyswyd (1.4.2018) gan Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/88), rhlau. 1(2), **8(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 143 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 143 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

## 144 Esgus rhesymol am fethu â chadw cofnodion a'u storio'n ddiogel

(1) Os yw person sy'n methu â chydymffurfio ag adran 38 **[**F2, 38A**]** neu 69 yn bodloni ACC neu (drwy apêl) y tribiwnlys bod esgus rhesymol am y methiant, nid oes unrhyw rwymedigaeth i gosb o dan adran 143 mewn perthynas â'r methiant.

(2) At ddibenion is-adran (1)—

(a) nid yw prinder arian yn esgus rhesymol oni bai y gellir priodoli hynny i ddigwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y person;

(b) pan fo'r person yn dibynnu ar berson arall i wneud unrhyw beth, nid yw hynny'n esgus rhesymol oni bai bod y person cyntaf wedi cymryd gofal rhesymol i osgoi'r methiant;

(c) os oedd gan y person esgus rhesymol am y methiant ond bod yr esgus wedi dod i ben, mae'r person i'w drin fel pe bai wedi parhau i fod â'r esgus os caiff y methiant ei gywiro heb oedi afresymol ar ôl i'r esgus ddod i ben.

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Gair yn a. 144(1) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 54**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Aau. 143-145 cymhwyswyd (1.4.2018) gan Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/88), rhlau. 1(2), **8(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 144 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I4** A. 144 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

## 145 Asesu cosbau o dan adran 143

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 143, rhaid i ACC—

(a) asesu'r gosb, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r person o'r gosb a aseswyd.

(2) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 143 o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth ACC i gredu yn gyntaf bod y person wedi methu â chydymffurfio ag adran 38 **[**F3, 38A**]** neu 69.

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Gair yn a. 145(2) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 55**; O.S. 2018/34, ergl. 3

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, PENNOD 4. (See end of Document for details)*

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Aau. 143-145 cymhwyswyd (1.4.2018) gan Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/88), rhlau. 1(2), **8(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 145 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I6** A. 145 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, PENNOD 4.